# Dysgu o Iwerddon: Llythrennedd, Polisi ac Ymarfer – Adroddiad Ymweliad Astudio

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau ymweliad astudio gyda ffocws i Iwerddon gan Cefin Campbell AS yng nghwmni Dr Huw Griffiths, Uwch-ddarlithydd mewn Addysg ym Mhrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, rhwng 23 a 25 Chwefror 2026. Diben yr ymweliad oedd archwilio datblygiad system addysg Iwerddon, gyda phwyslais arbennig ar y ffactorau sy'n sail i berfformiad llythrennedd cryf Iwerddon mewn cylchoedd olynol o'r Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA). Mae cyrhaeddiad uchel cyson Iwerddon o ran darllen wedi denu sylw rhyngwladol, yn enwedig o ystyried ei llwyddiant wrth gydbwyso canlyniadau llythrennedd â nodau addysgol ehangach fel llesiant disgyblion, ehangder y cwricwlwm a hunaniaeth ddiwylliannol. Bwriad yr ymweliad, felly, oedd archwilio'r polisïau, arferion a strwythurau sydd wedi cyfrannu at y llwyddiant hwn, gan gynnwys dulliau o ddylunio cwricwlwm, addysgu athrawon, cyfrwng iaith y ddarpariaeth a chefnogaeth i ddysgwyr difreintiedig.

Drwy raglen o ymgysylltu â llunwyr polisi, ymchwilwyr, athrawon, addysgwyr ac arweinwyr ysgolion, mae'r adroddiad hwn yn myfyrio ar y prif wersi o'r cyd-destun Gwyddelig ac yn ystyried eu perthnasedd ar gyfer datblygiad addysgol yng Nghymru.

## <u>Cyflwyniad</u>

Trefnwyd ein hymweliad ag Iwerddon gan Luke O'Donnell, ymchwilydd academaidd ac awdur yn yr Ysgol Addysg ym Mhrifysgol Galway. Cydlynodd Luke amserlen benodol dros ddau ddiwrnod yn Galway, a oedd wedi'u chynllunio i adeiladu ar yr ymweliad ymchwil blaenorol ehangach a gynhaliwyd gan Dr Huw Griffiths. Er bod yr amserlen fer yn cyfyngu ar nifer y sefydliadau yr oeddem yn gallu ymweld â hwy, roedd y rhaglen wedi'i strwythuro'n ofalus i sicrhau ehangder o safbwyntiau ar draws polisi, ymarfer ac addysg athrawon. Roedd y daith yn cyfuno ymgysylltu ar sawl lefel o'r system addysg yn Iwerddon. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfodydd gyda staff academaidd sy'n ymwneud ag addysg gychwynnol i athrawon a gwaith ymchwil addysgol ym Mhrifysgol Galway, gan roi cyfle i archwilio sut mae polisi yn cael ei ddehongli a'i weithredu o fewn addysg uwch. At hynny, cynhaliwyd cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr gwleidyddol, gan ein galluogi i ystyried y cyd-destun polisi cenedlaethol, yn enwedig mewn perthynas ag iaith, diwygio'r cwricwlwm a thegwch addysgol. Rhoddodd y trafodaethau hyn fewnwelediad gwerthfawr o'r blaenoriaethau strategol sy'n siapio addysg yn Iwerddon.

Fel rhan o'r ymweliad ehangach, fe wnaethom hefyd deithio i Ddulyn, lle gwnaethom gyfarfod â seneddwyr, gwleidyddion ac arbenigwyr polisi yn Dáil Éireann. Rhoddodd yr ymweliadau hyn safbwyntiau pwysig ar lefel genedlaethol o ran blaenoriaethau a diwygio addysgol. Fe wnaethom ymweld â'r Sefydliad Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, lle gwnaethom gyfarfod â'r Athro Emer Smyth, y mae ei gwaith ymchwil yn rhoi mewnwelediadau gwerthfawr i anghydraddoldeb addysgol, profiad disgyblion a chanlyniadau ar lefel system gyfan yn Iwerddon.

Elfen ganolog o'r ymweliad oedd yr ymweliad ag ysgol, a oedd yn caniatáu inni arsylwi arfer ar lawr gwlad, ac ymgysylltu'n uniongyrchol ag arweinwyr ysgolion ac ymarferwyr

addysg. Roedd hyn yn arbennig o werthfawr o ran rhoi polisi a thrafodaethau academaidd mewn cyd-destun, gan roi dealltwriaeth gliriach o sut mae mentrau'n gweithredu ar lefel ysgol. Yn bwysig, rhoddodd yr ymweliad hefyd fewnwelediad uniongyrchol i sut mae llythrennedd yn cael ei addysgu yn ysgolion Iwerddon, gan amlygu'r pwyslais cryf a roddir ar ddarllen. Gwelsom ymrwymiad clir, ysgol gyfan i ddatblygu llythrennedd, gyda darllen wedi'i ymgorffori ar draws y cwricwlwm a'i hyrwyddo fel sgìl craidd, yn ogystal â rhywbeth i'w fwynhau.

Ar y cyfan, er gwaethaf natur gryno'r ymweliad, cynigiodd yr amserlen raglen gytbwys a chydlynol. Caniatawyd inni driongli safbwyntiau ar sail ymchwil, polisi ac ymarfer, ac i wneud cymariaethau ystyrlon â'r cyd-destun Cymreig, yn enwedig o ran cyfrwng iaith mewn addysg, datblygu cwricwlwm a ffyrdd o gefnogi dysgwyr o gefndiroedd amrywiol. Yn hollbwysig, rhoddodd hefyd fewnwelediad gwerthfawr i addysgu hanes Iwerddon ac atgyfnerthodd rôl ganolog darllen o fewn system addysg Iwerddon, lle mae'n amlwg yn cael ei flaenoriaethu fel sgìl sylfaenol sy'n sail i lwyddiant academaidd a dysgu ehangach.

## <u>Dydd Llun 23 Chwefror</u>

### *Cyfarfod gyda'r Athro Seán Ó Grádaigh*

Roedd ein cyfarfod cyntaf yn y bore gyda'r Athro Seán Ó Grádaigh (O'Grady wedi'i Seisnigo) yn Adran Addysg Prifysgol Galway. Mae'r Athro Ó Grádaigh yn athro ac addysgwr athrawon Gwyddelig a chanddo gysylltiad agos ag addysg cyfrwng Gwyddeleg (Gaeilge). Wedi'i leoli ym Mhrifysgol Galway, yng nghampws Nun's Island gan amlaf, mae wedi chwarae rhan flaenllaw yn y gwaith o ddatblygu a chyflwyno rhaglenni hyfforddi athrawon ar gyfer athrawon ôl-gynradd drwy gyfrwng y Wyddeleg. Mae hefyd wedi bod yn rhan o hyrwyddo darpariaeth ar gyfer addysg athrawon cynradd mewn Gwyddeleg, gan adlewyrchu ymrwymiad ehangach i gryfhau llwybrau addysg trochi. Ystyrir yr Athro Ó Grádaigh yn awdurdod ar addysgeg cyfrwng Gwyddeleg, a chanddo brofiad sy'n cwmpasu datblygu cwricwlwm, hyfforddiant athrawon a'r heriau ymarferol o gynnal addysg leiafrifol o fewn cymdeithas Saesneg ei hiaith yn bennaf. Mae ei waith yn ymwneud yn uniongyrchol â'r prif gwestiynau ynghylch cadwraeth iaith, hunaniaeth ddiwylliannol a'r cydbwysedd rhwng addysg drochi a pharatoi disgyblion ar gyfer bywyd mewn byd sydd wedi ei ddominyddu gan yr iaith Saesneg. Felly, mae mewn sefyllfa dda i wneud sylwadau ar y sectorau cynradd ac uwchradd, yn ogystal â datblygiad strategol addysgu athrawon mewn cyd-destunau cyfrwng Gwyddeleg.

Yn ystod ein cyfarfod, tynnodd sylw hefyd at ei brofiad o weithio ar y cyd â Chymru, gan nodi ei ymwneud â Grŵp Cydweithredol Cymru ar gyfer Dylunio Dysgu. Cyfeiriodd at weithio ochr yn ochr â Dr Gary Beauchamp o Brifysgol Metropolitan Caerdydd, fel rhan o ddirprwyaeth o Iwerddon a ymwelodd â Chymru i archwilio dulliau cyffredin o ran cwricwlwm ac addysgeg. Adlewyrchodd fod cydweithredu o'r fath yn cynnig mewnwelediadau gwerthfawr ar sut mae'r ddwy wlad yn mynd i'r afael â heriau tebyg ynghylch cyfrwng iaith mewn addysg, datblygu athrawon a dylunio cwricwlwm mewn cyd-destunau dwyieithog.

Cafwyd trafodaeth eang ac addysgiadol iawn gyda Seán Ó Grádaigh a oedd yn cyffwrdd â sawl prif agwedd ar y system addysg yn Iwerddon. Roedd ganddo gyfraniad gwerthfawr o ran datblygu'r ddarpariaeth Cyflwyno Cyfle Cyfartal mewn Ysgolion (DEIS) ar gyfer cymunedau difreintiedig, a brofodd yn arbennig o ddefnyddiol o ran ein paratoi ar gyfer ein hymweliad dilynol ag Ysgol Genedlaethol Radharc na Mara, lle clywsom yn uniongyrchol gan Keith Joyce am yr heriau a wynebir ar lefel ysgol. Yn y sgwrs, archwiliwyd addysgu hanes Iwerddon mewn ysgolion a rôl Prifysgol Galway wrth lunio hyn ar lefel addysg gychwynnol i athrawon. Roedd arbenigedd yr Athro Ó Grádaigh mewn addysg cyfrwng Gwyddeleg yn arbennig o amlwg wrth iddo fyfyrio ar ddatblygiad y Wyddeleg mewn ysgolion. Nododd fod yr iaith yn aml wedi cael ei haddysgu yn aneffeithiol o'r 1960au hyd at ddechrau'r 1990au, a bod gan ddisgyblion ganfyddiad negyddol ohoni. Fodd bynnag, pwysleisiodd newid sylweddol a chadarnhaol dros y pymtheg mlynedd diwethaf, gyda brwdfrydedd cynyddol ymhlith pobl ifanc i ddysgu ac ymgysylltu â'r iaith. Trafodwyd modelau datblygiad proffesiynol athrawon yn Iwerddon, gan gynnwys rôl prifysgolion wrth gyflwyno cyrsiau dwys tri a phum diwrnod. Mae'r rhain yn aml yn cael eu cynnal yn ystod gwyliau'r haf i athrawon ac yn cael eu gwrthbwyso drwy ddyrannu 'oriau Parc Croke' ar draws y flwyddyn academaidd. Aeth yr Athro Ó Grádaigh ymlaen i drafod Arolygiaeth Ysgolion Iwerddon. Ystyrir arolygiaeth Iwerddon fel un gymharol anfygythiol, gan awgrymu ei bod yn cael ei hystyried yn gyffredinol gan athrawon ac ysgolion yn gorff cefnogol yn hytrach na chorff cosbiadol. Maes arall o ddiddordeb oedd y Flwyddyn Bontio ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11, pan na chynhelir arholiadau lle mae llawer yn y fantol. Disgrifiodd yr Athro Ó Grádaigh hyn fel cyfle gwerthfawr i ddisgyblion "gael blwyddyn i dyfu i fyny ac aeddfedu." Ystyriwyd hyn yn beth cadarnhaol iawn gan Dr Huw Griffiths, a oedd yn teimlo y gellid archwilio model tebyg yng Nghymru.

Yn olaf, trafodwyd strwythur y rhaglen hyfforddi athrawon ym Mhrifysgol Galway. Nododd yr Athro Ó Grádaigh fod mynediad i'r rhaglen yn gystadleuol, gyda thua un lle ar gael i bob pedwar ymgeisydd. Mae'r rhaglen ei hun yn cynnwys cwrs israddedig pedair blynedd, ac yn unigryw mae'n cyfuno hyfforddiant athrawon proffesiynol â chwblhau MA dwy flynedd mewn Addysg, gan gynnig cyfuniad cryf o baratoadau academaidd ac ymarferol. Mae'r cwrs MA dwy flynedd hefyd ar gael drwy gyfrwng y Wyddeleg ac mae'n boblogaidd gan fod athrawon Gwyddeleg mewn ysgolion yn y Gaeltacht yn derbyn cyflog uwch.

Soniwyd am lythrennedd a darllen yn y drafodaeth, ond ni wnaeth yr Athro Ó Grádaigh archwilio'r meysydd hyn yn fanwl, sy'n debygol o adlewyrchu'r ffaith mai ei brif arbenigedd yw addysg cyfrwng Gwyddeleg ac addysgeg iaith yn hytrach na llythrennedd fel maes arbenigedd penodol.

### *Cyfarfod gyda Luke O'Donnell*

Yn y prynhawn cawsom gyfle i drafod ymhellach gyda Luke O'Donnell y pwyntiau a godwyd yn y cyfarfod gyda'r Athro Ó Grádaigh. Rhoddodd Luke bersbectif ychwanegol arbennig o werthfawr, fel ymchwilydd addysg academaidd ac fel rhiant sy'n byw yn Iwerddon, ar ôl ymfudo yno o Seland Newydd. Galluogodd y persbectif deuol hwn iddo fyfyrio nid yn unig ar bolisi ar lefel system gyfan a'r dystiolaeth ymchwil, ond hefyd ar

ei brofiad personol o addysg yn Iwerddon. Cynigiodd fewnwelediad pellach i ddatblygiad llythrennedd o fewn addysg Iwerddon, gan dynnu'n rhannol ar ei brofiad ei hun o ran bod ei blant yn cael eu haddysgu mewn ysgolion cyfrwng Gwyddeleg. Roedd hyn yn caniatáu iddo wneud sylwadau ar realiti ymarferol addysg drochi, yn enwedig mewn perthynas â chaffael iaith, datblygiad darllen ac ymgysylltiad rhieni ag addysg mewn cyd-destun dwyieithog.

At hynny, cyn ein hymweliad, roedd Luke wedi gwneud dadansoddiad manwl o ddatblygiadau ym mherfformiad Iwerddon yn y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA), gyda ffocws penodol ar ganlyniadau llythrennedd. Archwiliodd ei ddadansoddiad lwybr gwelliant Iwerddon a'r ffactorau addysgol a allai fod wedi cyfrannu at ei pherfformiad cryf o ran darllen. Darparodd hyn fframwaith dadansoddol pwysig ar gyfer ein trafodaethau yn ystod yr ymweliad gan helpu i osod yr arsylwadau polisi ac ymarfer o fewn sylfaen dystiolaeth ryngwladol ehangach. Mae ei ddadansoddiad llawn wedi'i gynnwys mewn man arall yn yr adroddiad hwn.

## <u>Dydd Mawrth 24 Chwefror</u>

### *Ymweld ag Ysgol yn Oranmore*

Gan fod ein hamser yn Iwerddon yn brin, trefnodd Luke gyfarfod bord gron mawr yn Oranmore, pentref bach ar gyrion Galway, gan ddod ynghyd â phrif arweinwyr ac ymarferwyr addysg i alluogi trafodaeth gymharol rhwng gwahanol leoliadau addysgol. Yn bresennol yn y cyfarfod roedd Maeve Meeneghan, Pennaeth Scoil Íosa (ysgol gynradd cyfrwng Saesneg), Siobhán Ní Chonláin, Pennaeth Gaelscoil de Híde (ysgol gynradd cyfrwng Gwyddeleg), a Keith Joyce, Pennaeth Ysgol Genedlaethol Radharc na Mara (ysgol gynradd DEIS). Yn ogystal â'r penaethiaid, roedd nifer o arweinwyr llythrennedd ac athrawon dosbarth o'r ysgolion a oedd yn cymryd rhan hefyd yn bresennol, gan gyfrannu at ddeialog broffesiynol gyfoethog â ffocws ar arfer addysgu, cyflwyno cwricwlwm a dulliau i ddatblygu llythrennedd ar draws gwahanol gyd-destunau ysgolion.

Dechreuodd y drafodaeth gyda'r athrawon drwy siarad am bwysigrwydd ffoneg. Roedd yn amlwg bod ffoneg synthetig yn cael ei ystyried yn sylfaen hanfodol ar gyfer datblygu darllenwyr cynnar, gydag athrawon yn disgrifio'n fanwl sut mae'n cael ei roi ar waith yn eu hysgolion. Roedd cysondeb ar draws y lleoliadau yn amlwg, a'r lefel uchel o gytundeb proffesiynol ynghylch ei bwysigrwydd a'i werth wrth gefnogi datblygiad llythrennedd cynnar.

Yna gwnaethom symud ymlaen i drafod addysgu darllenwyr hŷn, gyda ffocws penodol ar ddarllen er pleser a datblygu rhuglder darllen. Mae'r egwyddorion hyn yn cyd-fynd yn agos â'r syniadau sylfaenol sy'n sail i gynllun darllen Dr Huw Griffiths, *Cynllun Darllen Twrch*, sy'n pwysleisio cynnydd o ddatgodio technegol tuag at ddarllen hyderus, mynegiannol ac ystyrlon. Er nad oedd yr athrawon yn defnyddio'r term penodol *Darllen FASE*, roedd eu trafodaeth yn amlwg yn adlewyrchu ei egwyddorion yn ymarferol. Mae Darllen FASE yn ddull strwythuredig o ddarllen llafar ar y cyd, lle caiff darllen ei ddeall ar sail bod yn Rhugl (*Fluent*), Sylwgar (*Attentive*), Cymdeithasol (*Social*) a Mynegiannol (*Expressive*). Yn y model hwn, mae disgyblion yn darllen â rhuglder

cynyddol, gan ddatblygu hyder mewn datgodio a brawddegu; maent yn parhau i fod yn sylwgar oherwydd gall unrhyw fyfyriwr gael ei alw i ddarllen ar unrhyw adeg; mae darllen yn gynhenid gymdeithasol, gyda'r holl ddisgyblion yn ymwneud fel darllenwyr a gwrandawyr mewn gweithgaredd ar y cyd; ac mae'n fynegiannol, gyda disgyblion yn cael eu hannog i ddefnyddio tôn, rhythm a phwyslais i gyfleu ystyr yn hytrach na dim ond cywirdeb.

Cafwyd cyfraniadau diddorol iawn gan Keith Joyce, Pennaeth yr ysgol DEIS, lle mae dros hanner y disgyblion yn dod o gymuned y Teithwyr. Eglurodd mai'r unig ddarllenwyr yn eu teuluoedd, mewn rhai achosion, yw'r disgyblion, a bod hynny wedi siapio sut mae'r ysgol yn ymgysylltu â rhieni. Anogir rhieni i fynychu sesiynau llythrennedd sylfaenol yn yr ysgol sydd wedi'u cynllunio mewn modd hygyrch a chefnogol, ac yn aml yn canolbwyntio ar weithgareddau ar y cyd, megis chwarae gemau llythrennedd gyda'u plant. Cyflwynwyd y dull hwn fel strategaeth allweddol er mwyn adeiladu hyder, chwalu rhwystrau i ymgysylltu, a chryfhau'r berthynas rhwng yr ysgol a chartrefi'r disgyblion.

Roedd hefyd yn amlwg bod Llywodraeth Iwerddon wedi gwneud buddsoddiad sylweddol mewn llyfrau ac adnoddau llythrennedd ehangach ar gyfer ysgolion, gan gefnogi mynediad cyson at ddeunyddiau darllen o ansawdd uchel ar draws gwahanol leoliadau. Yn wahanol i Gymru, mae disgyblion yn Iwerddon fel arfer yn aros mewn addysg gynradd hyd at ddiwedd yr hyn a fyddai'n cyfateb i Flwyddyn 7. Mae hyn yn cael ei gydnabod yn eang mewn llenyddiaeth academaidd fel cyfnod hanfodol yn natblygiad llythrennedd, pan fydd sgiliau dealltwriaeth disgyblion yn dechrau cyd-fynd yn agosach â'u gallu datgodio, gan ganiatáu ymgysylltiad dyfnach â thestunau.

Nodwyd bod disgyblion yn y tair ysgol a oedd yn bresennol yn darllen o leiaf chwe nofel ochr yn ochr â'u hathrawon, gydag adnoddau ategol wedi'u cynllunio'n ofalus i wella dealltwriaeth a thrafodaeth. Yng Nghymru, mewn cyferbyniad, mae tystiolaeth bod y swm o ddarllen a wneir gan ddisgyblion yn aml yn gostwng yn sylweddol ar ôl cyrraedd addysg uwchradd. Dangoswyd amrywiaeth o lyfrau ac adnoddau addysgu cysylltiedig a ddefnyddir mewn ysgolion yn Iwerddon, a ddangosodd lefel y cymorth strwythuredig a ddarperir ar gyfer datblygiad darllen.

At hynny, trafodwyd amlygrwydd hanes Iwerddon o fewn y cwricwlwm. Mynegodd athrawon syndod am y ffocws a'r ddarpariaeth adnoddau cymharol gyfyngedig ar gyfer hanes Cymru yng Nghymru, a phwysleisiodd sawl un yn gryf bwysigrwydd sicrhau bod "stori Iwerddon" yn cael ei haddysgu mewn ffordd gydlynol a hygyrch i bob disgybl, fel rhan o ymrwymiad ehangach i hunaniaeth genedlaethol, iaith a dealltwriaeth ddiwylliannol.

### *Cyfarfod gydag Eamon Ó Cuív*

Mae Eamon Ó Cuív yn TD wedi ymddeol ac yn gyn-Seneddwr a oedd wedi dal nifer o swyddi Gweinidogol mewn llywodraeth Fianna Fáil rhwng 1992 a 2024, ac am gyfnod bu'n Ddirprwy Arweinydd ei blaid. Mae Ó Cuiv yn ŵyr i sylfaenydd Fianna Fáil, Taoiseach ac Arlywydd Iwerddon, Éamon de Valera. Isod mae rhestr o'i gyfrifoldebau gweinidogol yn ystod gyrfa hir a nodedig:

Gweinidog dros yr Amgylchedd, Treftadaeth a Llywodraeth Leol

Gweinidog dros Amddiffyn

Gweinidog dros Amddiffyn Cymdeithasol

Gweinidog dros Faterion Cymunedol, Gwledig a'r Gaeltacht

Gweinidog Gwladol

Gweinidog dros Amaethyddiaeth, Bwyd a Datblygu Gwledig

Gweinidog dros y Celfyddydau, Treftadaeth, y Gaeltacht a'r Ynysoedd

Mewn trafodaeth eang, tynnodd sylw at bwysigrwydd adeiladu economi gref o fewn neu gerllaw ardaloedd Gaeltacht Gwyddeleg eu hiaith a sicrhau bod trefi mwy yn darparu cyfleoedd da o ran hamdden a ffordd o fyw er mwyn cadw pobl ifanc yn eu cymunedau. Cyfeiriodd at ddatblygiad Galway fel canolfan fusnes ryngwladol fawr sy'n arbenigo mewn technoleg a gwyddorau bywyd gydag ôl troed cryf mewn technoleg ddigidol, meddalwedd a chyllid. Roedd hyn yn darparu swyddi â chyflog da mewn amrywiaeth o sectorau a oedd nid yn unig yn creu swyddi lleol ond yn darparu cyfleoedd i'r rhai a oedd eisiau dychwelyd adref o blith y diaspora Gwyddelig.

O ran cynllunio ieithyddol a deddfwriaeth, cred y gallai Iwerddon ddysgu llawer o'r profiad yng Nghymru, gan gredu bod cefnogaeth y llywodraeth yn hanfodol i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg a Gwyddeleg a hyrwyddo eu defnydd mewn cymunedau ac yn ddigidol. Roedd yn dadlau’n gryf dros fwy o gydweithio rhwng seneddau Iwerddon, yr Alban a Chymru.

**<u>Dydd Mercher 25 Chwefror</u>**

***Cyfarfod yn Dáil Éireann, Dulyn***

Yn dilyn cyfarfod blaenorol yng Nghymru gyda dirprwyaeth o wleidyddion Gwyddelig a oedd wedi ymweld i archwilio datblygiad dwyieithrwydd yng Nghymru, trefnwyd cyfarfod pellach yn Nulyn gan Eoghan Ó Cruadhlaoich, yr uwch-was sifil sydd â chyfrifoldeb dros y Wyddeleg.

Yn Dáil Éireann, cawsom gyfarfod eto ag Aengus Ó Snodaigh TD (Sinn Féin), Shane Moynihan TD (Fianna Fáil) a Shane Curley (Seneddwr Fianna Fáil), ynghyd â nifer o Ddirprwyon, Seneddwyr a swyddogion eraill. Roedd y cyfarfod yn adeiladol ac yn arbennig o agored mewn tôn, gyda pharodrwydd clir ar bob ochr i rannu profiadau ac archwilio meysydd o ddiddordeb cyffredin. Un o'r themâu mwyaf arwyddocaol i ddod i'r amlwg oedd yr awydd cryf ymhlith gwleidyddion Iwerddon i weithio'n fwy agos gyda Chymru ar bolisi a datblygu’r iaith. Y farn gyffredinol oedd bod Cymru yn esiampl flaenllaw o ran hyrwyddo a normaleiddio iaith leiafrifol mewn bywyd cyhoeddus, yn enwedig mewn addysg, deddfwriaeth a chefnogaeth sefydliadol. Roedd y canfyddiad hwn yn gosod Cymru nid yn unig fel partner ond hefyd fel model y mae Iwerddon yn

awyddus i ddysgu ohono, yn enwedig o ran ehangu defnydd iaith y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth ac yn y gymdeithas ehangach.

Roedd elfen arbennig o flaengar o'r drafodaeth yn canolbwyntio ar y cyfleoedd a gyflwynir gan dechnolegau sy'n dod i'r amlwg, gan gynnwys deallusrwydd artiffisial a realiti rhithwir. Fe wnaeth cynrychiolwyr Iwerddon amlygu eu capasiti i fanteisio ar bresenoldeb cwmnïau technoleg rhyngwladol mawr fel Amazon a Google, sydd ill dau wedi sefydlu gweithrediadau sylweddol yn Iwerddon. Gwelwyd bod y perthnasoedd hyn yn cynnig potensial gwirioneddol i ddatblygu offer ac adnoddau digidol arloesol i gefnogi dysgu, defnyddio a gweledедd iaith mewn bywyd bob dydd. Nodwyd hefyd fod trafodaethau cychwynnol eisoes wedi digwydd gyda'r Alban a chynrychiolwyr Senedd yr Alban. Roedd hyn yn codi'r posibilrwydd o gydweithrediad teirochrog rhwng Cymru, Iwerddon a'r Alban, gan ddod ag arbenigedd a heriau a rennir ynghyd ar draws tri chyd-destun lleiafrifol. Ystyriwyd bod gan bartneriaeth o'r fath y potensial i gyflawni menter wirioneddol arloesol, yn enwedig yn y maes digidol, a allai gryfhau cynaliadwyedd a pherthnasedd hirdymor y Gymraeg, y Wyddeleg a Gaeleg yr Alban yn sylweddol mewn tirwedd dechnolegol sy'n esblygu'n gyflym.

### *Cyfarfod â'r Athro Emer Smyth, Sefydliad Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Dulyn*

Ein hymweliad olaf ar ein taith oedd gyda’r Athro Emer Smyth yn y Sefydliad Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRI) yn Nulyn. Mae'r Athro Smyth yn un o ymchwilwyr addysgol mwyaf blaenllaw Iwerddon ac yn uwch-ffigwr o fewn yr ESRI, gyda phrofiad helaeth o ddadansoddi systemau addysg, deilliannau disgyblion ac anghydraddoldeb cymdeithasol. Mae ei gwaith yn cael ei gydnabod am ei ddyfnder a'i ddylanwad ar bolisi addysg cenedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â sut brofiad o addysg mae disgyblion yn ei gael a sut mae systemau'n ymateb i anghenion amrywiol dysgwyr. Mae'r Sefydliad Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol yn chwarae rhan ganolog wrth adrodd ar bolisi cyhoeddus yn Iwerddon drwy waith ymchwil trylwyr sy'n seiliedig ar dystiolaeth. O fewn y maes addysg, mae'r ESRI wedi datblygu corff sylweddol o waith sy'n archwilio meysydd fel ymgysylltu â disgyblion, pontio rhwng addysg gynradd ac ôl-gynradd, anfantais addysgol ac effaith diwygiadau polisi ar ganlyniadau dysgwyr. Mae’r gwaith ymchwil yn aml yn tynnu ar astudiaethau hydredol ar raddfa fawr, yn benodol yr astudiaeth *Growing Up in Ireland*, sy'n olrhain datblygiad a phrofiadau addysgol pobl ifanc dros amser.

Rhoddodd yr Athro Smyth fewnwelediad gwerthfawr ar sut mae'r gwaith ymchwil hwn yn cael ei ddefnyddio i lunio a gwerthuso polisi addysg yn Iwerddon. Yn benodol, tynnodd sylw at bwysigrwydd deall llais y disgybl a phrofiad byw dysgwyr o fewn y system, yn hytrach na dibynnu ar ddata cyrhaeddiad yn unig. Mae ei gwaith wedi archwilio materion fel pontio o addysg gynradd i addysg uwchradd, llesiant disgyblion a'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ymgysylltiad a chyrhaeddiad, y mae pob un ohonynt yn berthnasol iawn i ddeall perfformiad addysgol cyffredinol Iwerddon.

Roedd ein trafodaeth yn cynnig persbectif dadansoddol pwysig i gyd-fynd â’r ymweliadau ysgol a pholisi a gynhaliwyd yn ystod y daith. Atgyfnerthodd werth gwaith

ymchwil hydredol ac ar lefel system gyfan wrth nodi cryfderau a heriau ym myd addysg, ac wrth gefnogi gwneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth. Yn benodol, rhoddodd ddealltwriaeth ddyfnach o sut mae perfformiad cryf Iwerddon mewn meysydd fel llythrennedd wedi'i leoli o fewn cyd-destun ehangach o brofiad disgyblion, tegwch a dylunio systemau. Roedd y cyfarfod yn arbennig o werthfawr gan ei fod yn caniatáu inni ailystyried llawer o'r themâu a oedd wedi dod i'r amlwg drwy gydol yr ymweliad a'u profi yn erbyn sylfaen ymchwil gadarn. Trafododd yr Athro Smyth yn fanwl sut yr ymatebodd Iwerddon i'w pherfformiad cymharol wael yn y Rhaglen Ryngwladol Asesu Myfyrwyr (PISA) yn 2009, yn enwedig drwy gynyddu'r amser a'r ffocws a neilltuwyd i ddarllen mewn ysgolion. Roedd ei dadansoddiad yn adleisio’n gryf â’r pwyntiau blaenorol a wnaed gan Luke O'Donnell, gan atgyfnerthu'r farn bod blaenoriaethu llythrennedd yn barhaus ac ar lefel system gyfan wedi bod yn ganolog i welliant yn Iwerddon. Pwysleisiodd hefyd y pwysigrwydd a roddir ar ddarllen er pleser, thema a amlygwyd yn gyson yn ystod ein hymweliad ysgol yn Oranmore. At hynny, tynnodd sylw at heriau parhaus, gan gynnwys dirywiad nodedig yn niddordeb bechgyn mewn darllen ar lefel uwchradd, mater sy'n parhau i fod angen ymyrraeth wedi'i dargedu er gwaethaf llwyddiant cenedlaethol cyffredinol mewn canlyniadau llythrennedd.

Cafwyd trafodaeth hefyd am rôl amlwg hanes Iwerddon o fewn y cwricwlwm, gan adlewyrchu ei bwysigrwydd wrth lunio hunaniaeth ddiwylliannol ac ymgysylltu â disgyblion. Trafodwyd materion systemig ehangach, gan gynnwys effaith anfantais economaidd-gymdeithasol a rôl ysgolion DEIS wrth fynd i'r afael ag anghydraddoldeb addysgol. Myfyriodd yr Athro Smyth hefyd ar werth y Flwyddyn Bontio fel nodwedd arbennig o'r system Wyddelig, a briodolwyd ganddi mewn ffordd debyg i’r trafodaethau blaenorol. Yn bwysig, cynigiodd hefyd bersbectif blaengar, gan amlinellu heriau allweddol sy'n wynebu system addysg Iwerddon yn y blynyddoedd i ddod, gan gynnwys cynnal safonau llythrennedd, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ac ymateb i anghenion newidiol disgyblion. Nododd hefyd fod gan Iwerddon gyfraddau uchel o bobl ifanc sy'n troi at addysg drydyddol, gyda thua 60-65% o'r rhai sy'n gadael yr ysgol yn mynd ymlaen i'r brifysgol lle maent yn talu ffi gofrestru flynyddol o £2,500.

Yr hyn a wnaeth y drafodaeth hon yn arbennig o arwyddocaol oedd i’r graddau y gwnaeth ddilysu ac atgyfnerthu'r sylwadau a gasglwyd drwy gydol yr ymweliad, ond gyda phwysau ychwanegol tystiolaeth gwaith ymchwil trylwyr. Rhoddodd hyn sylfaen gadarn ar gyfer dod i gasgliadau gwybodus a chymariaethau ystyrlon o ran y cyd-destun Cymreig.